Dŵr Cymru
Welsh Water

# Cwestiynau Cyffredin am Dorri'r Rheoliadau Dŵr

Bydd y ddogfen hon yn ateb ymholiadau cyffredin am hysbysiadau torri'r rheoliadau a phroses Dŵr Cymru wrth orfodi Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999 ('y Rheoliadau').

## Beth yw'r Rheoliadau?

Prif bwrpas y Rheoliadau yw amddiffyn iechyd y cyhoedd trwy atal gwastraff, camddefnydd, defnydd diangen, mesur gwallus ac yn bwysicach na dim, halogiad y dŵr rydyn ni'n ei ddarparu ar gyfer ein cwsmeriaid. Rydyn ni'n gorfodi'r Rheoliadau hyn ar ran Llywodraeth Cymru.

## Beth yw Hysbysiad Torri'r Rheoliadau?

Mae hysbysiad torri'r rheoliadau yn nodi achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau, ac yn amlinellu manylion y gwaith y mae angen ei gyflawni i ddatrys hyn, ynghyd â'r amserlenni ar gyfer cwblhau'r gwaith.

## Pam ydw i'n derbyn yr Hysbysiad hwn?

Fel ein cwsmer, chi sy'n gyfrifol am sicrhau bod eich system plymio a'ch ffitiadau dŵr yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Mae dyletswydd arnom ni, fel cyflenwr eich dŵr, i orfodi'r Rheoliadau hyn, a rhaid sicrhau bod unrhyw achosion o dorri'r Rheoliadau sy'n cael eu clustnodi yn cael eu hunioni.

## Sut mae cael tystiolaeth fod cynnyrch neu ffitiad yn cydymffurfio?

Gallwch ofyn am dystiolaeth o gydymffurfiaeth a thaflenni data technolegol perthnasol gan y gweithgynhyrchwr neu gyflenwr y cynnyrch.

## Pwy gaiff gyflawni'r gwaith angenrheidiol?

Rydyn ni'n eich cynghori chi i ddefnyddio Plymwyr Cymeradwy WaterSafe bob tro wrth gyflawni gwaith. Cyfeiriadur rhad ac am ddim o blymwyr â gwybodaeth ardystiedig am y Rheoliadau ac sy'n cael archwiliadau rheolaidd ar eu gwaith gennym yw WaterSafe. Cewch ei ddefnyddio am ddim, a bydd yn cynnwys dewis o Gontractwyr Cymeradwy yn eich ardal leol - **www.watersafe.org.uk**

## Sut mae cael tystiolaeth fod cynnyrch neu ffitiad yn cydymffurfio?

Gallwch ofyn am dystiolaeth o gydymffurfiaeth a thaflenni data technolegol perthnasol gan y gweithgynhyrchwr neu gyflenwr y cynnyrch.

## Beth fydd yn digwydd os na fyddaf i'n cywiro'r diffygion?

Fe wnawn ni bopeth y gallwn ni i gydweithio'n agos â'n cwsmeriaid i ddatrys problemau a helpu i unioni pethau. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau'n ofyniad cyfreithiol, felly os nad yw'r diffygion a glustnodir yn cael eu cywiro o fewn y cyfnod o amser a bennwyd, mae yna risg o gael eich erlyn a dirwyon ariannol.

I gael rhagor o wybodaeth am ein polisi gorfodi neu fanylion sut rydyn ni'n gweithio gyda'n cwsmeriaid i ddatrys y problemau, ewch i'n gwefan.
**www.dwrcymru.com/RheoliadauDŵr**



WaterSafe®
LOCAL APPROVED PLUMBERS

dwrcymru.com